Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygu monitro blynyddol ar:

# Genus Education

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2014

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Mae'n ofynnol i ymweliadau monitro blynyddol Estyn ag ysgolion annibynnol ac ysgolion arbennig annibynnol yng Nghymru adrodd ar b'un a yw rheoliadau safonau cofrestru Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC) ar gyfer ysgolion annibynnol yn cael eu bodloni, a lle nad ydynt yn cael eu bodloni, beth y mae angen iddynt ei wneud er mwyn cydymffurfio.

Mae mwy o wybodaeth ynghylch y rheoliadau ar gyfer yr ymweliad monitro hwn i'w gweld yn y dogfennau canlynol:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru: *Llawlyfr Gwybodaeth a Chofrestru Ysgolion Annibynnol*, Ebrill 2004; a
- Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 37/94: *Ysgolion annibynnol sy'n derbyn disgyblion ag anghenion addysgol arbennig*:
  - paragraffau 1-8: caniatáu/dileu cymeradwyaeth;
  - paragraff 42: newidiadau i gymeriad, rheolaeth neu ofalaeth ar yr ysgol; a
  - 37/94 paragraff 43: gwahaniaethau sylweddol o'r nifer a gymeradwywyd.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 26/03/2014**

## Cyd-destun

Mae Genus Education wedi'i chofrestru'n ysgol annibynnol i ddarparu addysg fewnol i blant sy'n byw yn nhri chartref plant y cwmni nad ydynt yn gallu manteisio ar addysg prif ffrwd.  Mae ystafell ddosbarth ym mhob cartref.

Agorwyd yr ysgol i ddechrau yn Chwefror 2011 ac roedd yn gweithredu ar safle Ynys-y-Bwt yn unig.  Sefydlodd y cwmni ystafell ddosbarth yn Knowle House yn 2012 ac un arall yn Station Cottage yn 2013.

Mae Pennaeth Addysg yn goruchwylio'r addysg ar draws y tri safle.  Mae'r safleoedd yn rhannu dogfennau cyffredin sy'n cynnwys polisïau ysgol, cynllun datblygu a threfniadau ar gyfer asesu, cynllunio a chyflwyno gwersi.  Mae athro amser llawn ym mhob ystafell ddosbarth.

Mae'r ysgol yn cynnig addysg amser llawn ac mae'n dilyn amseroedd tymor yr awdurdod lleol.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Dyma yw cryfderau'r ysgol:

- mae'n darparu amgylchedd tawel, cyfeillgar a chroesawgar lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn gallu dysgu.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu'n dda mewn gwersi ac yn ennill cymwysterau perthnasol;
- mae bron pob disgybl yn dangos ymddygiad da mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol.  Maent yn dangos parch at ymwelwyr, staff ac at ei gilydd;
- mae'r ystafelloedd dosbarth a mannau yn yr awyr agored yn darparu amgylcheddau dysgu priodol gydag adnoddau addas;
- mae'r cwricwlwm yn eang ac yn darparu ar gyfer ystod eang o bynciau a gweithgareddau.  Mae gwersi wedi'u cynllunio'n dda i fodloni anghenion dysgu disgyblion unigol.  Mae ffocws priodol ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion.  Mae'r amserlen yn cynnwys gwersi dyddiol mewn Saesneg a mathemateg;
- mae Cynlluniau Addysg Unigol (CAUau) yn cynnwys targedau wedi'u hysgrifennu'n dda ar gyfer datblygu llythrennedd emosiynol, gwelliannau mewn ymddygiad a datblygu medrau cyfathrebu llafar.  Mae'r targedau hyn yn cysylltu'n dda â datganiadau anghenion addysgol arbennig disgyblion;
- mae arweinwyr a rheolwyr yn rhannu eu gweledigaeth yn dda gyda staff ac maent wedi ymrwymo i broses o welliant parhaus yn yr ysgol; ac
- mae athrawon a staff cymorth gofal yn gweithio'n dda fel tîm ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion.

## Meysydd i'w datblygu

**Dyma yw meysydd yr ysgol i'w datblygu:**

- mae arweinwyr wedi blaenoriaethu datblygu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm ac mae athrawon yn gwneud defnydd priodol o brofion safonedig i sefydlu oedrannau cywirdeb darllen a sillafu ar gyfer pob disgybl. Fodd bynnag, nid yw'r asesiadau hyn yn ddiagnostig ac nid ydynt yn llywio gosod targedau ar gyfer datblygu medrau darllen yn ddigon da. Nid yw targedau CAU yn canolbwyntio ar ddatblygu dealltwriaeth o ddarllen, ysgrifennu a rhifedd;
- mae athrawon yn cynllunio gwersi'n dda i fodloni anghenion dysgu disgyblion a nodi cyfleoedd i gynnwys medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn nodi'n ddigon manwl pa fedr llythrennedd neu rifedd sy'n cael ei dargedu mewn gwersi;
- er bod y marcio mewn llyfrau yn gyfoes, nid yw adborth yn sylwadau athrawon bob amser yn helpu disgyblion i wybod beth i'w wneud i wella'u gwaith; ac
- mae'r ysgol yn cael gwybodaeth ddefnyddiol am ansawdd addysgu a dysgu trwy ddefnyddio ymweliadau monitro ansawdd bob hanner tymor. Fodd bynnag, nid oes proses glir ar gyfer hunanarfarnu ar draws yr ysgol a dim adroddiad hunanarfarnu.

## Argymhellion

**A1** Gwella datblygu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm a gwneud yn siŵr bod cyfleoedd ar gyfer cymhwyso'r medrau hyn yn cael eu cynllunio'n glir ac yn cynnwys targedau ar gyfer datblygu dealltwriaeth o ddarllen, medrau ysgrifennu a rhifedd lle bo'n berthnasol

**A2** Parhau i ddatblygu prosesau asesu trwy sicrhau bod marcio yn dangos yn gyson beth mae disgyblion yn ei wneud a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella

**A3** Defnyddio'r wybodaeth o fonitro ansawdd ac asesu i ddatblygu proses drylwyr a rheolaidd ar gyfer hunanarfarnu ysgol gyfan.

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygu blaenorol

**Argymhelliad 1:  Sicrhau bod perchnogion a staff yn cymryd rhan mewn proses hunanarfarnu drylwyr, sy'n llywio'r cynllun datblygu ysgol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Cynhelir ymweliadau monitro ansawdd â phob ystafell ddosbarth bob tymor.  Trwy'r rhaglen hon, mae pob athro yn arsylwi eu cymheiriaid ac fe geir arsylwadau gan yr athro arweiniol neu'r pennaeth addysg hefyd.  Mae'r cofnodion yn fanwl ac yn nodi ffyrdd ymlaen.  Mae deilliannau'r ymweliadau yn bwydo i mewn i oruchwylio a chyfarfodydd gwerthuso blynyddol ac fe'u trafodir yn y cyfarfodydd staff bob hanner tymor.  Mae hyn yn rhoi gwybodaeth werthfawr i'r ysgol i gynllunio hyfforddiant, cymorth a gwelliannau eraill ac mae'n creu diwylliant o rannu arfer.  Fodd bynnag, nid oes gan yr ysgol broses glir ar gyfer hunanarfarnu ar draws yr ysgol ac nid oes adroddiad hunanarfarnu.  Mae cynllun gwella ysgol cyfoes, a ddatblygwyd gyda staff, sy'n cynnwys targedau, graddfeydd amser a meini prawf llwyddiant priodol.

**Argymhelliad 2:  Egluro rolau'r pennaeth a'r athro arweiniol, i sicrhau gwelliant parhaus ar lefel weithredol a strategol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae gan y Pennaeth Addysg a'r athro arweiniol ddisgrifiadau swydd clir ac eglur.  Mae gan yr athro arweiniol rôl sylweddol mewn cynnal pob safle o ddydd i ddydd ac mae'n darparu cymorth a mentora i staff addysgu eraill.  Mae'n cefnogi datblygu asesu, cynllunio'r cwricwlwm a systemau cymorth ymddygiad ar draws y tri safle.  Mae'r Pennaeth Addysg yn darparu cyfeiriad strategol ac mae'n rheoli perfformiad ac yn goruchwylio pob aelod o'r staff addysgu.

**Argymhelliad 3:  Sicrhau bod adnoddau addysg yn y ddau leoliad o ansawdd uchel ac yn gweddu i anghenion dysgu'r disgyblion unigol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r tair ystafell ddosbarth yn darparu amgylchedd dysgu ysgogol ac maent yn cynnwys adnoddau da ac ystod dda o ddeunyddiau sy'n gweddu i anghenion dysgu disgyblion unigol.  Gall pob disgybl fanteisio ar dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).  Gwneir defnydd da o leoedd allanol ar bob safle i gyfoethogi'r cwricwlwm.

**Argymhelliad 4:  Sicrhau bod cynllunio ar gyfer medrau allweddol llythrennedd a rhifedd yn gyson ar draws yr holl feysydd pwnc a bywyd ehangach yr ysgol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae arweinwyr wedi blaenoriaethu datblygu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm.  Mae athrawon yn defnyddio profion safonedig i sefydlu oedrannau cywirdeb darllen a sillafu ar gyfer pob disgybl ac maent wedi nodi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'r medrau hyn mewn dogfennau cynllunio.  Fodd bynnag, nid yw'r profion safonedig yn ddiagnostig ac nid ydynt yn rhoi gwybodaeth i staff ynghylch cryfderau a gwendidau medrau darllen a sillafu pob disgybl.  O ganlyniad,

nid yw targedau ar gyfer datblygu'r medrau hyn yn ddigon manwl gywir ac nid ydynt yn helpu staff a disgyblion i wybod beth i'w wneud i wella'u perfformiad.  Nid yw data gwaelodlin a gosod targedau ar gyfer rhifedd wedi'i ddatblygu digon.

**Argymhelliad 5:  Datblygu cysylltiadau gyda Gyrfa Cymru ymhellach i sicrhau bod disgyblion yn cael cyngor ac arweiniad priodol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae staff wedi sefydlu cysylltiadau priodol gydag ystod eang o weithwyr proffesiynol, gan gynnwys ymgynghorwyr o Gyrfa Cymru sy'n gweithio'n dda gyda staff yr ysgol i reoli'r broses bontio ar gyfer disgyblion.  Er bod nifer y rhai sy'n gadael yr ysgol wedi bod yn isel, mae staff wedi cefnogi dysgwyr i drosglwyddo'n llwyddiannus i'r cam nesaf yn eu haddysg a byd gwaith.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

### Safon 1:  Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 2:  Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 3:  Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 4:  Addasrwydd perchnogion a staff

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 5:  Adeiladau a llety preswyl mewn ysgolion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### Safon 6:  Darparu gwybodaeth

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 7:  Y modd y dylid ymdrin â chwynion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, efallai byddai Cynulliad Cenedlaethol Cymru am ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

- ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Genus Education |
| **Rhif yr ysgol** | 672/6091 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 22 a 23 Ionawr 2014 |
| **Perchennog** | Genus Care Ltd. |
| **Staff** | 4 athro<br>28 staff cymorth gofal |
| **Nifer y disgyblion** | 4 |
| **Darpariaeth** | Yn ystod y tymor |
| **Math o angen addysgol arbennig (AAA) y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | Ddim yn berthnasol |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | Ionawr 2013 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | Ynys-y-Bwt, Mehefin 2013<br>Knowle House, Mehefin 2013<br>Station Cottage, Rhagfyr 2013 |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| **Arolygydd Cofnodol** | Anthony Mulcahy |
| **Arolygydd Tîm** | Jassa Scott |